# Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2017**

**2017/1. Presennol:** Cynghorwyr Swanson (yn y gadair), Griffiths, Jenkins, Mason a B. Thomas. Bu'r clerc yn gweinyddu.

**2.** **Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Goodman a Toland. Cynghorydd Sir ap Gwynn.

**3.** **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol:** Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfodydd ar 29 Mawrth 2017 a 18 Ebrill 2017.

**4.** **Datganiadau o ddiddordeb:**
Cynghorydd Thomas: palmant. Nodwyd bod angen ffurflenni gollyngiad ar Gynghorwyr Griffiths a Thomas.

**5.** **Materion yn codi:**

- i. Nodwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru at Mr R. Relph. Penderfynwyd gofyn am arwyddion sy'n fflachio ac i gael 40 wedi'i baentio ar y ffordd. Penderfynwyd hefyd edrych i mewn i gael giatiau ar ymyl y ffordd.
  **Pwynt gweithredu:** Clerc i edrych i mewn i ddulliau i arafu'r traffig.
- ii. Nid oedd newyddion ar y lle chwarae. Nodwyd bod angen tocio'r llwyni yno.
- iii. Nodwyd nad oedd newyddion ar y lôn i'r orsaf. Mae angen goleuadau ar y lôn ond nid oedd newyddion am hyn chwaith.
- iv. Nodwyd bod y banc papur wedi'i symud. Gobeithir bod hyn yn golygu na fydd pobl yn gadael sbwriel yno yn anghyfreithlon. Mae'r garafán oedd yno hefyd wedi mynd.
- v. Penderfynwyd hysbysebu yn y *Cambrian News* am glerc newydd.
  **Pwynt gweithredu:** Clerc i gysylltu â'r *Cambrian News.*

**6.** **Cyllid:**

- i. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol.
- ii. Gofynnwyd i'r Clerc adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor.

**7. Gohebiaeth a Chyfathrebu:**

- i. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyfreithiwr y Cyngor ynglŷn â pherchenogaeth y tir o dan y gysgodfa bws.
- ii. Nodwyd: Ffioedd archwilio a materion eraill sy'n ymwneud ag archwiliad 2015-16 – Swyddfa Archwilio Cymru
- iii. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Un Llais Cymru:
  - a) Pwyllgor Ardal Ceredigion: nodwyd.
  - b) Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017: Clerc i anfon manylion y gynhadledd at y cynghorwyr.
  - c) Penderfynwyd mabwysiadu'r polisi cyfryngau cymdeithasol.
  - ch) Penderfynwyd peidio ag ymuno ymaelodi â'r siarter coed.
- iv. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:
  - a) Cyfarfod ar hyfforddiant ar God Ymddygiad yr Aelodau: bydd y Clerc yn mynd.
- v. Bydd Cynghorydd Swanson yn darllen 'Siarad Iechyd' gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- vi. Nodwyd cylchlythyr SARPA.
- vii. Nodwyd Chwarae dros Gymru.

**8. Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 12 Gorffennaf 2017.